**Dyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae - papur crynodeb**

**Beth mae angen i'r Awdurdod Lleol neud?**

## Asesu

Adran 11 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, Cyfleoedd Chwarae ar gyfer plant, Tachwedd 2012. Mae'r rhan honno o'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol asesu digonolrwydd cyfleoedd chwarae i blant yn eu hardaloedd. Mae rheoliadau Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (Cymru) yn cefnogi Awdurdodau lleol i gwblhau'r asesiadau. Cyflwynwyd yr asesiad cyntaf i lywodraeth Cymru ym Mawrth 2013 gyda chynlluniau gweithredu. Mae dogfen crynodeb o'r asesiad ar gael ar wefan yr Awdurdod Lleol. Mae'r asesiad yn cael ei gwblhau bob 3 mlynedd, a chynlluniau gweithredu bob blwyddyn ac adroddiad cynnydd.
*****Mae hwn yn ddyletswydd statudol o dan adran 11 (1), 11 (2), 11 (5), 11 (6) o'r mesur*****

## Sicrhau

Mae ail ran y ddyletswydd yn rhoi dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant, yn ôl yr asesiad. Mae'r rhan yma wedi ei gychwyn 1at Gorffennaf 2014. Fel rhan o'r ddyletswydd i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant, mae angen i Awdurdodau Lleol defnyddio dull ymarferol er mwyn cynnal darpariaeth a gwasanaethau, ac i gynyddu a gwella cyfleoedd chwarae ar gyfer pob plenty.
*****Mae hwn yn ddyletswydd statudol o dan adran 11 (3)*****

## Cyhoeddi

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bob Awdurdod Lleol i ddatblygu rhan glir ar y wefan sydd yn rhoi gwybodaeth gynhwysfawr am:

- Parciau a gwagleoedd tu allan sydd yn darparu cyfleoedd chwarae
- Cynlluniau chwarae gwyliau
- Digwyddiadau i blant a theuluoedd; a'r gymuned lle mae plant yn chwarae

Mae angen i'r Awdurdod Lleol sicrhau fod gwybodaeth yn cael i ddiweddaru yn rheolaidd.
*****Mae hwn yn ddyletswydd statudol o fewn adran 11 (4)*****

**Amserlen ar gyfer asesu digonolrwydd cyfleoedd chwarae, a sicrhau'r cyfleoedd hynny, dros y 10 mlynedd nesaf:**

| **Dyddiadau Cyflwyno** | **Anghenion** |
|---|---|
| **Mawrth 2016**<br><br>**Mawrth 2019**<br><br>**Mawrth 2022**<br><br>**Mawrth 2025** | Bydd gofyn i Awdurdodau Lleol gwblhau a chyflwyno copi o'u Hasesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae; y Crynodeb Gweithredol o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae; a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer y flwyddyn nesaf i Weinidogion Cymru.<br><br>Dylai'r Awdurdodau Lleol gyhoeddi'r Crynodebau Gweithredol o'r Asesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae are u gwefannau. Rhaid i'r crynodebau gyhoeddir gynnwys canlyniadau'r Asesiadau O Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a thynnu sylw at y camau gweithredu y mae'r Awdurdodau Lleol yn bwriadu eu cymryd i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol.<br><br>Rhaid mynd ati'n flynyddol i ddatblygu Cynlluniau Datblygu Chwarae a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru.<br><br>Bydd gofyn i Awdurdodau Lleol ddefnyddio canlyniadau'r Asesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae i gyfrannu at y Cynllun Integredig Sengl. |

**Paratowyd gan:** Caryl Alban, Swyddog Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae
March 2016